OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 948 (Cy.125)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr UE, ac maent yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) (Diwygio) 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Ebrill 2012.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011(**3**).

### Diwygio rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011

**3.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011, yn y testun Cymraeg, ar ôl y diffiniad o "darpariaeth eidion Ewropeaidd" ("*European beef provision*"), mewnosoder—

> "ystyr "darpariaeth moch Ewropeaidd" ("*European pig provision*") yw darpariaeth a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno;".

(**1**) Yn rhinwedd erthygl 3 o Orchmyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010, O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).
(**3**) O.S. 2011/1826 (Cy. 198).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Alun Davies*
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1826 (Cy.198)) ("Rheoliadau 2011").

Yn benodol mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio adran 2(1) yn y testun Cymraeg o Reoliadau 2011 i fewnosod diffiniad o "darpariaeth moch Ewropeaidd" ("European pig provision").